


Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Polisi Rheoli Risg

Ionawr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**


Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.


**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Polisi Rheoli Risg

Ionawr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys


Cyflwyniad....................................................................................................1
Diben ac Amcanion y Polisi ....................................................................2
Rheoli Risg yn ei Gyd-destun ..................................................................2
Goddefgarwch a Pharodrwydd Risgiau....................................................3
Y Prosesau a'r Trefniadau Allweddol ar gyfer Adrodd yn ôl ....................4
Rheoli Materion .........................................................................................5
Cyfrifoldebau...............................................................................................5
Canlyniad.....................................................................................................5

# Cyflwyniad

**1.** Diffinnir risg fel ansicrwydd canlyniad, p'un a yw'n gyfle cadarnhaol neu'n fygythiad negyddol, gweithredoedd a digwyddiadau[1]. Mae'n rhywbeth a *allai* gael effaith annymunol neu ddymunol ar gyflawni nodau neu amcanion y sefydliad ryw dro yn y dyfodol.

**2.** Rheoli risg yw'r broses lle mae sefydliad yn nodi ac yn rheoli:

– y bygythiadau sy'n ei wynebu wrth geisio cyflawni ei nodau ac amcanion; ac

– y risgiau y mae'n dymuno eu cymryd i wneud y gorau o gyfleoedd i gyflawni neu ragori ar y nodau ac amcanion hynny.

**3.** Mae hyn yn cynnwys asesu'r effaith a'r tebygolrwydd y bydd risgiau yn cael eu gwireddu a'r trefniadau i'w lliniaru a'u rheoli. Mae hefyd yn cynnwys deall y rolau a'r cyfrifoldebau i nodi a lliniaru risgiau yn ogystal â llwybrau clir ar gyfer codi risgiau i statws uwch wrth iddynt godi neu gynyddu.

**4.** Mae rheoli materion hefyd wedi'i gynnwys yn y polisi hwn (gweler paragraffau 32 i 35 isod) i ffurfioli dull corfforaethol y Comisiwn o gasglu gwybodaeth am risgiau sy'n cael eu gwireddu a materion sy'n digwydd.

**5.** Mae Prif Weithredwr ac uwch reolwyr Comisiwn y Cynulliad (y Comisiwn) wedi ymrwymo i system gadarn o reoli risg sy'n galluogi'r sefydliad i osgoi neu leihau effaith bygythiadau difrifol ac i wneud y gorau o'r cyfleoedd i ddilyn nodau a blaenoriaethau strategol[2].

**6.** Mae aeddfedrwydd ein dull o reoli risg wedi arwain at nifer o risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol ar lefel gwasanaeth, gan alluogi uwch reolwyr i ganolbwyntio ar reoli a monitro risgiau ar lefel gorfforaethol. Mae eglurder a dealltwriaeth ynghylch pryd y dylid rheoli risg ar lefel gorfforaethol ac mae tystiolaeth bod risgiau a reolir ar bob lefel yn golygu na chânt y risgiau hynny eu gwireddu.

**7.** Mae archwilwyr y Comisiwn a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad (ACARAC) yn gyson wedi cymeradwyo ein dull cyffredinol o reoli risg ond rydym yn cydnabod nad oes lle i laesu dwylo a byddwn yn parhau i geisio gwella ein prosesau.

**8.** Adolygir y polisi hwn ar ddechrau pob Cynulliad neu'n amlach, os oes angen, i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau.

**9.** Caiff y polisi ei ategu gan ddogfen Proses Rheoli Risg sy'n darparu rhagor o fanylion am gyfrifoldebau a phrosesau ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a materion. Caiff y ddogfen honno, a chanllawiau ategol, eu hadolygu wrth i ni gytuno ar newidiadau i'r prosesau a'r gweithdrefnau.

**10.** Bydd unrhyw adolygiad yn ystyried arfer da cydnabyddedig, y farn ddiweddaraf ar reoli risg a barn ein harchwilwyr.

---

[1] Trysorlys EM, Y Llyfr Oren: Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau

[2] Gellir gweld strategaeth y Comisiwn 2016-21 yn http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission/Pages/abt-commission.aspx

# Diben ac Amcanion y Polisi

**11.** Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull y Comisiwn o reoli risg o fewn cyd-destun ein trefniadau llywodraethu corfforaethol. Mae'n disgrifio ein goddefgarwch a'n parodrwydd i gymryd risg, ein cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r polisi, manylion prosesau allweddol, ynghyd â threfniadau adrodd yn ôl, a chanlyniadau disgwyliedig.

**12.** Mae'r polisi hefyd yn amlinellu'r dull corfforaethol o reoli materion, gan nodi sut y dylai meysydd gwasanaeth bennu meini prawf ar gyfer casglu materion a'u codi i statws uwch. Mae hyn yn unol â Strategaeth y Comisiwn 2016-21[3] sy'n nodi "lle nad yw pethau'n mynd yn dda, byddwn yn dangos beth rydym wedi'i ddysgu a'i wneud, rhag bod yr un peth yn digwydd eto".

**13.** Mae mabwysiadu'r polisi hwn yn ein helpu i gynnal diwylliant lle byddwn yn ceisio nodi, dadansoddi, rheoli a monitro yn barhaus ac yn gyson y risgiau y byddwn yn eu hwynebu ac i gael y mwyaf o'r cyfleoedd posibl i wella ein perfformiad ar lefel gwasanaeth, lefel gorfforaethol, lefel rhaglenni a lefel prosiectau ym mhob rhan o'r Comisiwn. Mae hefyd yn sicrhau bod prosesau a sianelau cyfathrebu effeithiol ar waith i alluogi'r holl staff i nodi risgiau, materion a chyfleoedd a'u codi i statws uwch fel y bo hynny'n briodol. Mae'n ein galluogi i sicrhau yr ymdrinnir â phroblemau yn gynnar, cyn iddynt ddod yn fater sylweddol posibl ac i ddysgu o brofiadau o risgiau sydd wedi'u gwireddu neu faterion sydd wedi digwydd.

# Rheoli Risg yn ei Gyd-destun

**14.** Mae llywodraethu da yn ganolog i weithredu effeithiol mewn unrhyw sefydliad ac mae rheoli risg yn rhan annatod o lywodraethu da. Drwy ddefnyddio'r wybodaeth ynghylch y diwylliant neu'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo a'i oddefgarwch a pharodrwydd i gymryd risg, gellir rheoli'r risgiau i gefnogi a sicrhau nodau ac amcanion y sefydliad. Mae a wnelo hyn gymaint ag ecsploetio cyfleoedd a chefnogi gwelliant parhaus ag atal problemau posibl neu leihau eu heffaith.

**15.** I'r Comisiwn, mae hyn yn golygu bod nodi a rheoli'r risgiau yn effeithiol gydag effaith gadarnhaol a negyddol yn allweddol i gyflawni nodau'r Pumed Cynulliad: i ddarparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf; i ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad; ac i ddefnyddio adnoddau yn ddoeth.

**16.** Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau dull rhagweithiol i nodi a rheoli risgiau sydd wedi'i gynnwys yn ein fframwaith llywodraethu corfforaethol. Ceir manylion y fframwaith hwnnw ar dudalennau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn y Rhyngrwyd[4]. Mae angen i ni nodi a rheoli ein risgiau mewn ffordd systematig ac â ffocws er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau a'n bod yn treulio ein hamser yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

[3]Gellir gweld strategaeth y Comisiwn 2016-21 yn http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission/Pages/abt-commission.aspx

[4]Gellir gweld Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn yn http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission/Pages/abt-commission.aspx

**17.** Mae fframweithiau llywodraethu, strategaethau a pholisïau eraill y Comisiwn hefyd yn rhoi arweiniad ar nodi a rheoli risgiau penodol, gan gynnwys:

- Strategaethau Caffael o ran risgiau masnachol, gan sicrhau bod gan bob strategaeth contract asesiad risg manwl gyda mesurau priodol i liniaru'r risgiau a nodwyd; ac
- y Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth o ran risgiau gwybodaeth.

**18.** Mae Canllawiau Rheoli Prosiect Corfforaethol y Comisiwn hefyd yn cynnwys rhagor o fanylion am nodi a chasglu risgiau prosiect.

**19.** Mae Polisi Parhad Busnes y Comisiwn yn helpu i gryfhau ein gwydnwch drwy ein helpu i leihau'r effaith ar y sefydliad os caiff risg ei wireddu neu os yw mater yn digwydd. Mae'n rhoi'r gallu i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau a'r gallu i adfer yn gyflym ac yn effeithiol.

# Goddefgarwch a Pharodrwydd Risgiau

**20.** Mae pob un ohonom yn cymryd risgiau yn ein bywydau bob dydd, ac rydym yn goddef neu'n cymryd y rhan fwyaf ohonynt heb feddwl rhyw lawer. Mae goddefgarwch a pharodrwydd sefydliad i gymryd risg yn dibynnu ar ei faint, pa mor gymhleth ydyw a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo.

**21.** Er bod y Comisiwn yn sefydliad cymharol fach, rydym yn darparu set amrywiol o wasanaethau ac mae gennym broffil cyhoeddus sy'n gyson uchel. Felly, mae angen i ni ddeall y terfynau o faint o risg y dylem oddef neu gymryd er mwyn cyflawni ein nodau, blaenoriaethau ac amcanion. Rydym eisiau cael ein rhybuddio'n fuan ynglŷn â phroblemau posibl, ond rydym hefyd eisiau rhoi hyder i'n staff i gymryd risgiau sydd wedi'u rheoli'n dda lle bo'n briodol.

**22.** Datblygwyd matrics sgorio i adlewyrchu ein lefelau goddefgarwch a pharodrwydd. Mae'r matrics hwn, y gellir ei weld yn y ddogfen Proses Rheoli Risg, yn rhoi arweiniad ac rydym yn cydnabod y bydd lefelau goddefgarwch a pharodrwydd gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o risgiau h.y. risgiau gwasanaeth/gweithredol, strategol/corfforaethol, a rhaglen/prosiect.

**23.** Mae cael dealltwriaeth glir o'n goddefgarwch a'n parodrwydd i gymryd risg a'n goddefgarwch ohono yn ein helpu i:-

- achub ar gyfleoedd a gwneud penderfyniadau hyddysg;
- nodi adnoddau sy'n cael eu gwastraffu ar risgiau rydym yn barod i'w goddef a'u canolbwyntio ar feysydd lle mae'r risg yn uwch ac yn bwysicach i'r busnes; ac
- egluro uwchben pa drothwy mae angen codi risgiau i statws uwch.

# Y Prosesau a'r Trefniadau Allweddol ar gyfer Adrodd yn ôl

**24.** Mae'n bwysig ein bod yn parhau i nodi risgiau a chyfleoedd posibl i wella a'n bod yn deall sut y maent yn cael eu rheoli. Mae'r cylch ar gyfer ein dull o reoli risg (yn seiliedig ar gyfuniad o Safon Ryngwladol ISO 31000[5] a'r broses fel y'i diffiniwyd gan y safon a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Rheoli Risg[6]) fel a ganlyn:

- **Sefydlu cyd-destun** h.y. nodau, blaenoriaethau ac amcanion
- **Nodi'r** risgiau
- **Asesu/mesur** y risgiau
- **Penderfynu ar yr ymateb** i'r risgiau
  - Goddef
  - Trin
  - Trosglwyddo
  - Dileu
- **Cofnodi'r** risgiau
- **Adrodd** yn ôl ar y risgiau

Yn rhedeg drwy'r cylch hwn mae'r angen i **gyfathrebu** a **monitro ac adolygu** y risgiau a nodwyd

**25.** Thema allweddol sy'n rhedeg drwy'r broses yw'r angen i gyfathrebu â phobl eraill a allai fod ynghlwm yn nodi, asesu a rheoli risgiau ar bob lefel.

**26.** Cyflwynir adroddiadau cyson ar reoli ein prif risgiau corfforaethol i'r uwch reolwyr, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad (ACARAC). Gan fod rheoli risgiau yn broses ailadroddol, mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar statws presennol y risgiau a nodwyd, sef yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd i reoli'r risgiau a pha mor ddigonol yw'r dulliau rheoli neu'r cynlluniau wrth gefn sydd ar waith.

**27.** Bydd uwch reolwyr hefyd yn ystyried y risgiau sy'n ymwneud â phenderfyniadau y gofynnir iddynt eu gwneud. Bydd asesiad o hynny wedi'i gynnwys mewn papurau a gyflwynir iddynt.

**28.** Bydd Comisiwn y Cynulliad yn cael gwybod, drwy drafodaeth, o unrhyw risgiau sylweddol wrth iddynt godi. Bydd asesiad o risgiau sy'n ymwneud â phenderfyniadau y gofynnir i'r Comisiwn eu gwneud wedi'i gynnwys mewn papurau a gyflwynir iddynt. Bydd y Comisiwn hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ystyriaeth ACARAC o'r risgiau, ac mae'r aelodau yn cynnwys y Comisiynydd sy'n gyfrifol am lywodraethu.

**29.** Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu adroddiadau crynodeb rheolaidd ar reoli risgiau ar lefel gwasanaeth i'w Cyfarwyddwr. Bydd Hyrwyddwyr Risg y meysydd gwasanaeth yn rhoi'r diweddaraf ar symudiadau allweddol o fewn cofrestrau risg mewn cyfarfodydd y Fforwm Rheoli Risg ac yn gwneud cysylltiadau rhwng risgiau a materion sy'n gyffredin i bob gwasanaeth.

5 http://www.iso.org/iso/home/standards/iso31000.htm
6 https://www.theirm.org/

**30.** Bydd risgiau y mae angen eu codi i lefel gorfforaethol yn cael eu hadrodd i'r Cyfarwyddwr perthnasol a Rheolwr Risg y Comisiwn wrth iddynt gael eu nodi. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i uwch reolwyr a fydd yn penderfynu a oes angen i'r risgiau gael eu rheoli a'u monitro ar lefel gorfforaethol.

**31.** Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn, mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr adrodd yn gyhoeddus yn y Datganiad Llywodraethu blynyddol ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli risg. Mae hyn hefyd yn golygu casglu sicrwydd ffurfiol yn flynyddol gan Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth, archwilwyr ac ACARAC.

# Rheoli Materion

**32.** Mater yw rhywbeth sydd *yn* digwydd neu sydd eisoes *wedi* digwydd. Mae'n rhywbeth sydd *yn* achosi neu *wedi* achosi effaith ar y gwaith o gyflawni nodau neu amcanion.

**33.** Rheoli materion yw'r broses lle mae sefydliad yn ymateb i risgiau sy'n cael eu gwireddu a materion sy'n digwydd. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio ymateb ar y cyd â'r rhanddeiliaid cywir a chasglu a rhannu'r hyn a ddysgir o'r profiadau hyn.

**34.** Nid yw'n bosibl pennu meini prawf safonol ar gyfer materion y gellid eu cymhwyso ar draws pob gwasanaeth oherwydd natur amrywiol y gwasanaethau a ddarperir. Bydd pob gwasanaeth neu fwrdd rhaglen/prosiect yn cytuno ar ei feini prawf ei hun ar gyfer casglu materion sy'n seiliedig ar eu heffaith ganfyddedig.

**35.** Mae’r ddogfen Proses Rheoli Risg yn disgrifio pryd y bydd angen i wybodaeth am faterion gael ei chofnodi’n ffurfiol, y broses ar gyfer casglu’r wybodaeth a lefel y manylion sydd angen ei chofnodi.

# Cyfrifoldebau

**36.** Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr a’r Penaethiaid Gwasanaeth yw sicrhau bod y Polisi Rheoli Risg a'r prosesau, gan gynnwys y rhai ar gyfer rheoli materion, yn cael eu gweithredu yn eu meysydd gwasanaeth. Bydd Hyrwyddwr Risg yn cefnogi hyn ym mhob maes gwasanaeth. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i gefnogi ac ymwreiddio’r polisi hwn, i nodi a throsglwyddo'r risgiau a materion a dangos eu bod wedi ystyried y risgiau mewn cynigion a/neu benderfyniadau.

# Canlyniad

**37.** Mae mabwysiadu'r dull cynhwysol, rhagweithiol a systematig hwn, gyda chyd-ddealltwriaeth o derminoleg a buddion sefydliadol ac ymrwymiad gan uwch reolwyr, yn ein galluogi i ddatblygu diwylliant o fod yn ymwybodol o risg, ac o ganolbwyntio ar berfformiad a pharodrwydd ymysg yr holl staff i wella pethau.

**38.** Yr allwedd i lwyddo gyda'r dull hwn yw monitro ac adolygu cyson; cyflwyno adroddiadau amserol a pherthnasol; a gweithredu amserol ar y lefel briodol. Caiff llwyddiant ei fesur drwy sicrwydd ar lefelau amrywiol, gan gynnwys:

– Hyder y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn y broses, a'r adroddiadau a gânt;

- Ymgysylltiad y Penaethiaid Gwasanaeth, a sicrhau eu bod yn gweld buddion y broses o ran darparu gwasanaethau;
- y staff yn chwarae rhan lawn yn y broses, yn nodi ac yn asesu risgiau;
- tystiolaeth bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol - bod y tebygolrwydd o risgiau'n cael eu lleihau a bod eu heffaith yn cael ei lleihau os ydynt yn cael eu gwireddu;
- hyder ACARAC a Chomisiwn y Cynulliad yn y broses; ac
- adolygiad cadarnhaol gan archwiliadau mewnol ac allanol.